# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

## Etholiad Senedd y DU

## Ar gyfer etholaeth RHONDDA AC OGWR

1. Bydd etholiad yn cael ei chynnal ar gyfer Aelod Seneddol i wasanaethu RHONDDA AC OGWR.

2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfa'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), Gwasanaethau Etholiadol, 10-12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW yn ystod yr amserau a nodir isod.

3. Mae'n rhaid i'r papurau enwebu gael eu danfon i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn Gwasanaethau Etholiadol, 10-12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW ar unrhyw ddiwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn o ddydd Mawrth i ddydd Gwener rhwng 10am a 4pm (ac eithrio gŵyl y banc) ond heb fod yn hwyrach na 4pm dydd Gwener, 7 Mehefin 2024.

4. Gellir talu’r ernes o £500 drwy dendr cyfreithiol neu drwy ddrafft banc o dynnwr sy’n cynnal busnes fel banc yn y Deyrnas Unedig.

5. Os oes brwydr ar gyfer yr etholiad bydd y bleidlais yn cael ei chynnal ar dydd Iau, 4 Gorffennaf 2024.

6. Mae’n rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn canol nos ar dydd Mawrth, 18 Mehefin 2024. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

7. Mae'n rhaid i geisiadau diwygiadau neu ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn 5pm dydd Mercher, 19 Mehefin 2024. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: https://www.gov.uk/gwneud-cais-pleidlais-drwyr-post

8. Rhaid i geisiadau am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr neu Ddogfen Etholwr Anhysbys sy’n ddilys ar gyfer yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn 5pm ar dydd Mercher, 26 Mehefin 2024. Gellir gwneud ceisiadau am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr ar-lein https://www.gov.uk/ceisio-am-lun-id-tystysgrif-awdurdod-pleidleiswyr

9. Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn 5pm dydd Mercher, 26 Mehefin 2024. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: https://www.gov.uk/gwneud-cais-pleidlais-drwy-ddirprwy

10. Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (fel y dangosir isod) erbyn 5pm ar dydd Iau, 4 Gorffennaf 2024.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) Gwasanaethau Etholiadol, 10-12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW ar dydd Llun, 3 Mehefin 2024

| **Bwrdeistref Sirol** | **Cyswllt – Y Swyddog Cofrestru Etholiadol** | **Rhif ffôn** | **E-bost** |
|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | Gwasanaethau Etholiadau,<br>10-12 Heol Gelliwastad,<br>Pontypridd,<br>CF37 2BW | 01443 490100 | electoralservices@rctcbc.gov.uk |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Gwasanaethau Etholiadau,<br>Swyddfeydd Dinesig,<br>Stryd yr Angel<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF31 4WB | 01656 643116 | electoral@bridgend.gov.uk |

Dyddiad: dydd Llun, 3 Mehefin 2024
Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) Gwasanaethau Etholiadol, 10-12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW ar dydd Llun, 3 Mehefin 2024